Inspection of Youth Offending
Archwilio Rhaglen Troseddwyr Ifanc

Criminal Justice Joint Inspection
Arolygiad ar y Cyd Cyfiawnder Troseddol

# Arolygiad Achosion Craidd o waith troseddwyr ifanc yng Nghymru a Lloegr

## Adroddiad ar waith troseddwyr ifanc yn:

## **Sir Benfro**

ISBN: 978-1-84099-363-9

2010

## Rhagair

Cynhaliwyd yr Arolygiad Achosion Craidd hwn o waith troseddwyr ifanc yn Sir Benfro ei gynnal fel rhan o'r Rhaglen o Arolygu Gwaith Troseddwyr Ifanc. Rydym wedi archwilio sampl gynrychioliadol o achosion troseddwyr ifanc o'r ardal, ac wedi barnu pa mor aml y cyflawnwyd agweddau Gwarchod y Cyhoedd a Diogelu ar y gwaith eu cyflawni i safon ddigon uchel.

Bu inni farnu bod yr agweddau Diogelu y gwaith wedi'u cyflawni'n ddigon da 91% o'r amser. Gydag agweddau Gwarchod y Cyhoedd, gwnaethpwyd y gwaith i leihau *Risg pob unigolyn o achosi Niwed i Eraill* ei wneud yn ddigon da 76% o'r amser, a gwnaethpwyd y gwaith i wneud pob unigolyn yn llai tebygol o aildroseddu yn ddigon da 85% o'r amser. Rhoddir dadansoddiad mwy manwl o'n darganfyddiadau yng nghorff yr adroddiad hwn, a chrynodeb ar ffurf tabl yn Atodiad 1. Gellir darllen y ffigurau hyn yng nghyd-destun ein darganfyddiadau o'r ardaloedd a arolygwyd hyd yma yn Lloegr. I fyny at heddiw, mae'r sgôr cyfartalog ar gyfer Gwaith Diogelu wedi bod yn 64%, gyda'r sgoriau'n ymestyn o 38-82%, mae'r sgôr cyfartalog ar gyfer gwaith Risg o Niwed wedi bod yn 60%, gyda'r sgoriau'n ymestyn o 36-85%, ac mae'r sgôr cyfartalog ar gyfer gwaith *Tebygolrwydd o Aildroseddu* wedi bod yn 66%, gyda'r sgoriau'n ymestyn o 50-82%.

Arolgwyd Tim Troseddwyr Ifanc Sir Benfro gyntaf yn 2007 a chafwyd ei fod yn anfoddhaol, yn methu â darparu'r gofynion sylfaenol bron ym mhob maes. Roedd yn hail-arolygiad yn 2008 yn cydnabod bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud ac wedi argymell rhai gwelliannau pellach yn y gwaith o reoli'r *Risg o Niwed i Eraill* a diogelu plant. Mae hyn wedi'i gyflawni drwy arweiniad Rheolwr y Tîm Troseddwyr Ifanc, gyda chefnogaeth ei bwrdd rheoli a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Cawsom fod ymarferwyr wedi gweithio'n galed i godi safonau ac i ddarparu gwaith o ansawdd da, gyda chefnogaeth asiantaethau partner.

Ar y cyfan, teimlwn fod y darganfyddiadau hyn yn rhai da iawn.

*Andrew Bridges*
*Prif Arolygydd Prawf EM*

*Hydref 2010*

## Cydnabyddiaeth

Hoffwn ddiolch i’r holl staff o’r Tîm Troseddwyr Ifanc, i aelodau’r Bwrdd Rheoli ac i asiantaethau partner am eu cymorth i sicrhau rhediad esmwyth yr arolygiad hwn.

| | |
|---|---|
| *Prif Arolygydd* | *Helen Davies* |
| *Arolygwr* | *John Llewelyn Thomas* |
| *Asesydd CCI* | *Steve Poulton* |
| *Staff Cymorth* | *Andy Doyle* |
| *Tîm Cyhoeddiadau* | *Catherine Calton; Christopher Reeves* |
| *Golygydd* | *Liz Calderbank* |

## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Cydnabyddiaeth | 4 |
| Sgorio - a Thabl Crynodeb | 6 |
| Argymhellion | 7 |
| Y camau nesaf | 7 |
| Persbectif Defnyddwyr y Gwasanaeth | 8 |
| Rhannu arferion da | 9 |
| 1. ASESU A CHYNLLUNIO DEDFRYDAU | 10 |
| 1.1. Risg o Niwed i eraill: | 10 |
| 1.2 Tebygolrwydd o Aildroseddu: | 11 |
| 1.3 Diogelu: | 12 |
| 2. CYFLENWI AC ADOLYGU YMYRIADAU | 14 |
| 2.1 Gwarchod y cyhoedd drwy leihau’r Risg o Niwed i eraill: | 14 |
| 2.2 Lleihau’r Tebygolrwydd o Aildroseddu: | 15 |
| 2.3 Diogelu’r plentyn neu’r person ifanc: | 16 |
| 3. Y CANLYNIADAU | 18 |
| 3.1 Sicrhau canlyniadau: | 18 |
| 3.2 Cynnal canlyniadau: | 19 |
| Atodiad 1: Crynodeb | 20 |
| Atodiad 2: Gwybodaeth gyd-destunol | 21 |
| Atodiad 3a: Siart o ddata'r arolygiad | 22 |
| Atodiad 3b: Data’r arolygiad | 23 |
| Atodiad 4: Rôl Arolygiaeth Prawf EM a’r Cod Ymarfer | 23 |
| Atodiad 5: Rhestr Termau | 24 |

## Sgorio – a Thabl Crynodeb

Mae’r adroddiad hwn yn rhoi sgoriau canrannol am bob un o’r ‘meini prawf ymarfer’ sy’n nodi pa mor aml i bob agwedd ar y gwaith gyrraedd y lefel o ansawdd yr oeddem yn chwilio amdani. Yn yr arolygiadau hyn rydym yn canolbwyntio’n bennaf ar agweddau Gwarchod y Cyhoedd a Diogelu y gwaith ym mhob un sampl o achosion.

Felly, rydym yn gallu rhoi sgôr sy’n cynrychioli pa mor aml oedd agweddau Gwarchod y Cyhoedd a Diogelu yr achosion a aseswyd yn cyrraedd y lefel o ansawdd yr oeddem yn chwilio amdani, ac a grynhoir yma.

Rydym hefyd yn rhoi pennawd 'sylw' wrth bob sgôr, i nodi a oeddem yn ystyried bod angen i'r agwedd hon o’r gwaith wella **YCHYDIG, RHYWFAINT, YN SYLWEDDOL** neu **YN DRASTIG** yn y dyfodol agos.

| **Sgôr *Diogelu:*** | |
|---|---|
| Mae’r sgôr hwn yn nodi canran y gwaith Diogelu a oedd yn ein barn ni wedi cyrraedd safon uchel ddigonol o ran ansawdd. Mae’r sgôr yn bwysig i’n helpu i benderfynu a fydd angen arolygiad pellach cynnar. | |
| ***Sgôr:***<br>***91%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

| ***Gwarchod y Cyhoedd*: sgôr *Risg o Niwed:*** | |
|---|---|
| Mae’r sgôr hwn yn nodi canran y gwaith *Risg o Niwed* a oedd yn ein barn ni wedi cyrraedd safon cuehl ddigonol o ran ansawdd. Mae’r sgôr yn bwysig i’n helpu i benderfynu a fydd angen arolygiad pellach cynnar. | |
| ***Sgôr:***<br>***76%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

| ***Gwarchod y Cyhoedd* – Sgôr *Tebygolrwydd o Aildroseddu:*** | |
|---|---|
| Mae’r sgôr hwn yn nodi canran y gwaith *Tebygolrwydd o Aildroseddu* a oedd yn ein barn ni wedii cyrraedd safon uchel ddigonol o ran ansawdd. | |
| ***Sgôr:***<br>***85%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

Rydym yn cynghori darllenwyr adroddiadau i beidio â cheisio cymharu sgoriau ardaloedd unigol yn rhy fanwl. Nid yw cymariaethau fel hyn o reidrwydd yn ddilys oherwydd bod maint y samplau'n amrywio fymryn, felly hefyd proffil yr achosion yn sampl pob ardal. Credwn ei bod yn well edrych ar y sgôr fel prif grynodeb o’r darganfyddiadau ym mhob ardal unigol, ac fel ffocws i wella ar waith yr ardal honno yn y dyfodol.

## **Argymhellion** (rhoddir y person sy’n bennaf gyfrifol mewn cromfachau)

Mae angen gwneud newidiadau i sicrhau, mewn cyfran uwch o achosion:

(1) bod asesiad trylwyr yn cael ei wneud ar y dechrau o *Risg yr unigolyn o achosi Niwed i eraill*, fel y bo’n briodol i’r achos dan sylw (Rheolwr y Tîm Troseddwyr Ifanc)

(2) bod cynllun rheoli risg amserol yn cael ei gynhyrchu yn rhoi sylw i'r *Risg o Niwed i Eraill* lle bo angen (Rheolwr y Tîm)

(3) bod asesiad o arddull ddysgu’r plentyn neu’r person ifanc yn cael ei gofnodi ac yn cyfrannu at yr ymyriad mwyaf priodol, a sut orau i’w ddarparu (Rheolwr y Tîm)

(4) bod diogelwch dioddefwyr yn cael ei asesu’n gyflawn, ac yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel drwy gydol y gwaith a wneir gyda'r plant a'r bobl ifanc (Rheolwr y Tîm)

## Y camau nesaf

Dylid cyflwyno cynllun gwelliannau i ateb yr argymhellion i Arolygiaeth Prawf EM bedair wythnos ar ôl cyhoeddi adroddiad yr arolygiad hwn. Ar ôl ei ddrafftio’n derfynol, anfonir y cynllun at y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i fonitro ei weithrediad.

## Persbectif y Defnyddwyr Gwasanaeth

### Plant a phobl ifanc

Llenwodd ddeg o blant a phobl ifanc holiadur ar gyfer yr arolygiad hwn.

- Gwyddai bob un o’r deg o blant a phobl ifanc pam eu bod wedi dod at y Tîm Troseddwyr ifanc a roeddent yn glir ynghylch beth fyddai’n digwydd iddynt yn ystod eu gorchymyn.
- Teimlai bedwar fod gan staff y Tîm ddiddordeb gwirioneddol yn eu helpu; teimlai bump fod ganddynt ddiddordeb yn eu helpu y rhan fwyaf o’r amser a theimlai un nad oedd ganddynt ddiddordeb o gwbl.
- Teimlai saith o’r plant a'r bobl ifanc fod staff y Tîm wedi gwrando ar yr hyn oedd ganddynt i’w ddweud bob tro; teimlai’r gweddill eu bod yn gwrando peth o’r amser.
- Roedd chwech o’r plant a’r bobl ifanc yn cofio llenwi ffurflen *Beth ydych CHI yn ei feddwl?* neu ffurflen arall amdanynt eu hunain.
- Teimlai bob un ar wahân i un fod y Tîm Troseddwyr Ifanc wedi cymryd camau i ymdrin â’r pethau lle’r oeddynt angen cymorth.
- Y meysydd mwyaf cyffredin lle’r oedd y plant a’r bobl ifanc wedi derbyn cymorth oedd addysg a hyfforddiant, ffordd o fyw, a gwneud penderfyniadau gwell. Teimlai eu hanner fod eu bywydau wedi gwella o ganlyniad i'w gwaith gyda'r Tîm Troseddwyr Ifanc.
- Roedd y rhan fwyaf yn fodlon gyda’u cyswllt gyda’r Tîm a theimlai bob un heblaw am un eu bod yn awr yn llai tebygol o droseddu.

### Dioddefwyr

Llenwyd bedwar holiadur gan ddioddefwyr troseddau a gyflawnwyd gan blant a phobl ifanc.

- Roedd tri naill ai'n hollol fodlon neu'n fodlon gyda’r rhan fwyaf o’r gwasanaeth a roddwyd iddynt gan y Tîm.
- Teimlai dri ohonynt fod y Tîm wedi ystyried eu hanghenion ac y cawsant gyfle i siarad am yr hyn oedd yn eu poeni ynghylch y trosedd.
- Roedd dau wedi elwa o waith a wnaed gan y plentyn neu’r person ifanc.
- Roedd un yn anfodlon gyda’r gwasanaeth a dderbyniwyd. Roeddent yn teimlo nad oedd y Tîm wedi egluro pa wasanaethau allai fod ar gael neu wedi talu sylw i’w diogelwch.

## Rhannu arferion da

Isod rhoddir enghreifftiau o arferion da a ddaethom ar eu traws yn y Tîm Troseddwyr Ifanc.

| | |
|---|---|
| **Asesu a Chynllunio Dedfrydau**<br><br>**Maen Prawf Cyffredinol: 1.3a** | Roedd David yn cael ei oruchwylio gan y Tîm Troseddwyr Ifanc, ar ôl achosi anhrefn cyhoeddus tra oedd yn yr ysbyty oherwydd effeithiau alcohol. Roedd yn 16 oed, gyda chyrhaeddiad addysgol isel a phroblemau gydag yfed trwm a chymryd canabis. Roedd gan ei fam drafferthion iechyd meddwl ac roedd pethau'n gythryblus adref. Roedd staff y Tîm wedi gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau lleol. Gyda'i gilydd, roeddent wedi helpu David i yfed llai a chymryd llai o gyffuriau ac i roi'r gorau i droseddu. Roedd ei weithiwr yn y Tîm a'i swyddog gyrfaoedd yna wedi ei annog i ddechrau cwrs sgiliau sylfaenol yn y coleg. Wrth i'w anghenion lles gynyddu, atgyfeiriwyd yr achos at y gwasanaethau gofal plant i ddiogelu David a phlant eraill yn y teulu. Cafodd yr atgyfeirio ei ôl-ddilyn ac, fel Plentyn mewn Angen, roedd wedi parhau i dderbyn cymorth lles ar ôl i'r gorchymyn ddod i ben. |
| **Darparu ac Adolygu Ymyriadau**<br><br>**Maen Prawf Cyffredinol: 2.2a, 2.3e** | Roedd Joe wedi derbyn gorchymyn cynllun gweithredu am ymosod ar rywun. Roedd y gwaith a wnaed yn ystyried ei waith fel gofalwr ifanc i'w fam a'i chwaer, yn ogystal â'i brofiad blaenorol o gam-drin yn y cartref. Roedd ei weithiwr wedi ei helpu i weld pethau o bersbectif y dioddefwr mewn ffordd ddychmygus, drwy chwarae rôl. Roedd hefyd wedi llwyddo i gwblhau rhaglen gwneud iawn cymunedol a oedd wedi helpu i wella ei hunan-werth. Roedd y gwasanaethau gofal plant wedi darparu cymorth a daethpwyd o hyd i leoliad addysgol mwy addas ar ei gyfer. Roedd ei weithiwr yn y Tîm wedi dod gydag ef i'w gyfweliad coleg ac roedd ar fin dechrau cwrs peirianneg morol. Cafodd y gorchymyn ei gwblhau'n llwyddiannus heb unrhyw droseddu pellach. |
| **Y Canlyniadau**<br><br>**Maen Prawf Cyffredinol: 3.1** | Merch ifanc fregus oedd Bethan a oedd dan ofal yr awdurdod lleol ac yn destun gorchymyn atgyfeirio am ymosod ar rywun. Roedd rheolwr yr achos wedi gweithio gyda Bethan a'i mam i helpu i reoli ei dicter. Dangosai daflenni gwaith wedi eu llenwi ganddi, fel *'dechrau gwylltio – darllen yr arwyddion'* a *'fy adroddiad meddwl'*, sut iddi osgoi gwrthdaro a dod o hyd i'r cymorth priodol. Roedd CAMHS a'r gwasanaethau gofal plant wedi darparu ymyriadau therapiwtig ac roedd Bethan wedi gwneud cardiau ar gyfer elusen leol, fel rhan o'i gwaith gwneud iawn. Roedd mam Bethan wedi canmol ei chynnydd a dychwelodd i fyw adref. Cyflwynwywyd tystysgrif cyflawniad i Bethan yng nghyfarfod olaf y panel ar ôl iddi gwblhau ei gorchymyn heb droseddu ymhellach. |

# 1. ASESU A CHYNLLUNIO DEDFRYDAU

| **1.1. Risg o Niwed i eraill (RoN):** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:*** *Mae’r asesiad o RoN yn gynhwysfawr, yn gywir ac yn amserol, yn ystyried materion dioddefwyr ac yn defnyddio ASSET ac offer asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau wedi eu gosod i reoli’r RoN.* | |
| ***Sgôr:*** ***74%*** | ***Sylw:*** ***Angen gwella RHYWFAINT*** |

### *Cryfderau:*

(1) Cwblhawyd proses sgrinio RoND ASSET mewn 97% o achosion, a phob un heblaw dau wedi eu cwblhau ar amser. Yn ein barn ni roedd 76% yn gywir.

(2) Gwnaethpwyd dadansoddiad llawn o’r RoND mewn 70% o’r achosion perthnasol. Roedd yr asesiad yn gwneud defnydd boddhaol o'r holl wybodaeth briodol mewn 79%.

(3) Roeddem yn cytuno gyda’r dosbarthiad risg ar gyfer 79% o’r plant a’r bobl ifanc.

(4) Roedd y dadansoddiad o’r RoND a’r gwaith o reoli’r risg honno wedi ei gyfathrebu’n briodol i’r holl staff a’r asiantaethau perthnasol mewn 72% o’r achosion cymwys.

(5) Barnwyd fod rheolwyr wedi goruchwylio’r asesiadau *RoN* yn effeithiol mewn 72% o achosion.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Yn y saith ffeil lle oedd dosbarthiad y RoND yn anghywir, barnwyd ei fod yn rhy isel bob tro.

(2) Roedd y dadansoddiad llawn o’r RoND yn foddhaol mewn 60% o achosion. Roedd angen rhoi mwy o sylw i ymddygiad perthnasol blaenorol a’r risg i ddioddefwyr.

(3) Cwblhawyd Cynllun Rheoli Risg mewn chwech achos, pedwar yn llai nag oedd angen yn ein barn ni, o ystyried y risgiau a oedd wedi eu cyflwyno. Roedd dau wedi eu cwblhau’n hwyr ac nid oedd rheolwyr wedi goruchwylio’r Cynlluniau Rheoli Risg yn foddhaol bob tro.

(4) Lle nad oedd angen Cynllun Rheoli Risg, roedd yr angen i gynllunio ar gyfer materion *RoN* wedi cael ei weithredu arno mewn 9 allan o'r 16 o achosion perthnasol.

| 1.2 Tebygolrwydd o Aildroseddu (ToA): | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:*** *Mae'r asesiad o ToA yn gynhwysfawr, yn gywir ac yn amserol ac yn defnyddio ASSET ac offer asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau wedi eu gosod i leihau'r ToA.* | |
| ***Sgôr:*** ***87%*** | ***Sylw:*** ***Angen gwella YCHYDIG*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd asesiad cychwynnol o'r ToA wedi ei gwblhau ar amser ac i safon foddhaol mewn 92% o achosion. Roedd y plentyn neu'r person ifanc wedi ei gynnwys yn weithredol yn yr asesiad cychwynnol bron ym mhob achos, a'r rhieni / gofalwyr mewn 89%.

(2) Roedd holiadur y plant a'r bobl ifanc, *Beth ydych CHI'N ei feddwl?* wedi ei ddefnyddio i oleuo'r asesiad cychwynnol mewn 82% o achosion. Roedd yr asesiad wedi cael ei oleuo ymhellach gan gyswllt gyda'r gwasanaethau gofal plant (97%) a darparwyr ETE (89%). Lle oedd hynny'n berthnasol, roedd cyswllt gyda'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau (94%), y gwasanaethau iechyd meddwl ac emosiynol (87%) a'r heddlu (88%) hefyd wedi cyfrannu. Roedd yr asiantaethau hyn hefyd wedi cyfrannu'n weithredol at y broses gynllunio.

(3) Roedd yr asesiad cychwynnol wedi ei adolygu ar adegau priodol mewn 84% o achosion.

(4) Roedd cynllun ymyrryd wedi ei osod mewn 92% o achosion ac roedd 71% wedi eu cwblhau ar amser. Roedd y plentyn neu'r person ifanc wedi ei gynnwys yn ystyrlon yn y broses gynllunio ym mhob achos, a'r rhieni / gofalwyr mewn canran uchel o'r achosion. Roedd y cynllun wedi rhoi sylw boddhaol i'r ffactorau a oedd yn gysylltiedig â'r troseddu ar gyfer 84% o'r plant a'r bobl ifanc. Roedd ffactorau cadarnhaol wedi eu cydnabod ar gyfer y mwyafrif helaeth a'r anghenion Diogelu wedi eu hystyried mewn 84% o'r achosion.

(5) Roedd y cynlluniau ymyrryd i gyd yn adlewyrchu pwrpas y ddedfryd ac yn canolbwyntio ar newid cyraeddadwy, gyda 97% yn rhoi siâp clir i'r gorchymyn. Roedd yr amcanion yn y cynllun yn cynnwys gwaith Diogelu priodol mewn 84% o achosion, gyda 81% yn sensitif i faterion amrywiaeth.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Roedd rheolwr yr achos wedi asesu arddull ddysgu'r plentyn neu'r person ifanc yn ffurfiol, cyn penderfynu pa ymyriad fyddai'r un mwyaf priodol, neu sut orau i'w ddarparu, mewn 58% o achosion.

(2) Roedd yr asesiad cychwynnol wedi cael ei oleuo gan gyswllt blaenorol gyda'r Tîm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol mewn pump allan o'r naw achos perthnasol. Gwelsom dystiolaeth iddynt gael eu cynnwys yn weithredol ac yn ystyrlon yn y broses gynllunio dim ond mewn un allan o'r chwech achos perthnasol.

(3) Roedd y cynllun ymyrryd mewn dilyniant priodol i'r anghenion a oedd yn gysylltiedig â'r trosedd mewn 68% o achosion ac yn ystyried materion dioddefwyr perthnasol mewn 65%.

| **1.3 Diogelu:** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:*** *Mae'r asesiad o anghenion Diogelu yn gynhwysfawr, yn gywir ac yn amserol, ac yn defnyddio ASSET ac offer asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau wedi eu gosod i reoli Diogelu ac i leihau bregusrwydd.* | |
| ***Sgôr:*** ***90%*** | ***Sylw:*** ***Angen gwella YCHYDIG*** |

### *Cryfderau:*

(1) Cwblhawyd proses sgrinio am fregusrwydd ASSET wedi'i gwblhau ar 97% o'r sampl gyda phob un heblaw am ddau wedi'i gwblhau ar amser ac i safon foddhaol.

(2) Roedd Cynllun Rheoli Bregusrwydd wedi'i gynhyrchu mewn 83% o'r achosion perthnasol a thri chwarter wedi eu cwblhau ar amser. Mewn 88% o achosion, roedd tystiolaeth bod rheolwyr wedi goruchwylio'r asesiad bregusrwydd a'r cynllun yn effeithiol.

(3) Roedd y Cynllun Rheoli Bregusrwydd wedi cyfrannu at ac wedi goleuo'r cynlluniau perthnasol eraill mewn 80% o achosion.

(4) Roedd anghenion diogelu'r plant a'r bobl ifanc wedi cael eu hadolygu fel bo angen mewn 87% o achosion.

### *Maes lle mae angen gwella:*

(1) Roedd ansawdd y Cynllun Rheoli Bregusrwydd yn foddhaol mewn 67% o achosion. Y prif bryder oedd diffyg unrhyw ymateb wedi'i gynllunio pe bai'r lefel bregusrwydd yn newid.

### Y SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer ansawdd y gwaith Asesu a Chynllunio Dedfrydau: 85%

### SYLWADAU ar Asesu a Chynllunio Dedfrydau fel cyfanwaith:

Roedd y Tîm Troseddwyr Ifanc wedi'i leoli yn yr un ganolfan â'r tîm gofal plant hirdymor lleol, y swyddogion adolygu sicrhau ansawdd a'r gwasanaeth tai. Roedd Rheolwr y Tîm wedi gweithio'n galed i sefydlu perthynas adeiladol gydag asiantaethau partner, ac roedd hyn wedi'i adlewyrchu yn ansawdd uchel y gwaith Diogelu.

Roedd gan Sir Benfro gyfradd isel o ddedfrydau dan glo i blant a phobl ifanc a dim ond un achos o'r fath oedd yn y sampl. Roedd hwn wedi sgorio'n dda ar draws y meini prawf perthnasol. Roeddem yn cytuno nad oedd yr un o'r achosion a arolygwyd yn cwrdd â'r trothwy ar gyfer MAPPA.

Roedd rhai asesiadau wedi eu tynnu drwodd o orchmynion blaenorol ac yn cynnwys cronoleg ddigwyddiadau hir. Byddai dadansoddiad o'r wybodaeth hanesyddol, ynghyd â'r cofnod diweddaraf, wedi bod yn fwy defnyddiol i'r darllenydd. Gwelsom ddau achos lle oedd yr asesiadau wedi cael eu hôl-ddyddio, arfer nad yw'n cael ei gymeradwyo gan reolwyr y Tîm.

Roedd y Tîm wedi sefydlu cyfarfodydd rheoli risg bob pythefnos ychydig cyn yr arolygiad. Bydd hyn yn eu helpu i adeiladu ar y cynnydd da sydd wedi'i wneud, fel bod ansawdd y gwaith *RoN* yn gyson ag ansawdd y gwaith Diogelu.

# 2. CYFLENWI AC ADOLYGU YMYRIADAU

| **2.1 Gwarchod y cyhoedd drwy leihau'r Risg o Niwed i eraill:** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:*** *Cymerwyd pob cam rhesymol i warchod y cyhoedd drwy leihau Risg y plentyn neu'r person ifanc o achosi Niwed i Eraill.* | |
| ***Sgôr:*** ***83%*** | ***Sylw:*** ***Angen gwella YCHYDIG*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd *RoN* y plentyn neu'r person ifanc wedi ei hadolygu'n drylwyr, yn unol â'r amserlen ofynnol, mewn 79% o'r sampl.

(2) Roedd newidiadau i'r *RoN* yn cael eu rhagweld lle bo hynny'n ymarferol mewn 91% o'r achosion perthnasol; yn cael eu hadnabod yn ddiymdroi mewn 85%; a staff yn ymateb iddynt yn briodol mewn 80%.

(3) Lle bo angen, roedd staff y Tîm wedi cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd aml-asiantaeth.

(4) Roedd ymweliadau cartref i bwrpas wedi eu cyflawni drwy gydol y ddedfryd, yn unol â'r *RoN* a oedd yn cael ei chyflwyno, ym mhob achos perthnasol.

(5) Roedd adnoddau priodol wedi eu dyrannu'n unol â lefel y *RoN* mewn 94% o achosion. Roedd ymyriadau penodol i reoli'r *RoN* yn y gymuned wedi eu darparu fel a gynlluniwyd mewn 84% o achosion ac wedi eu hadolygu ar ôl newid sylweddol bob tro.

### *Maes lle mae angen gwella:*

(1) Roedd asesiad llawn o ddiogelwch y dioddefwyr wedi ei wneud mewn 45% o'r achosion perthnasol, gyda diogelwch y dioddefwyr yn derbyn blaenoriaeth uchel mewn 57%.

| 2.2 Lleihau'r Tebygolrwydd o Aildroseddu: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r rheolwr achos yn cydgysylltu ac yn hwyluso cyflenwi strwythyredig o holl elfennau'r cynllun ymyrryd.* | |
| ***Sgôr:***<br>***88%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

## *Cryfderau:*

(1) Gwelsom dystiolaeth yn y ffeiliau achos ac yn ystod cyfweliadau o waith da (92%) wedi'i ddyfeisio i leihau aildroseddu (94%). Roedd ymyriadau wedi eu darparu yn unol â'r cynllun ymyrryd (86%) a'u hadolygu'n briodol mewn 81%.

(2) Roedd anghenion amrywiol y plentyn neu'r person ifanc wedi eu hymgorffori mewn 83% o'r achosion perthnasol. Roedd ymweliadau cartref wedi helpu i oresgyn yr anawsterau trafnidiaeth mewn ardal a oedd yn bennaf yn un wledig. Hefyd, roedd gan Sir Benfro gymuned sylweddol o sipsiwn / teithwyr. Roedd gan y rheolwyr achos ddealltwriaeth dda o'u hanghenion penodol ac yn wybodus am wasanaethau arbenigol.

(3) Roedd ymyriadau wedi eu darparu'n unol â statws yr achosion fel Troseddwyr Cyson ac Eraill â Blaenoriaeth (PPO) ym mhob achos perthnasol heblaw am un. Roedd y Tîm Troseddwyr Ifanc yn cadeirio cyfarfodydd Atal Troseddau Ieuenctid pob pythefnos i sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd gydgysylltiedig.

(4) Ym mhob achos heblaw am un, roedd adnoddau priodol wedi eu dyrannu yn unol â'r ToA a aseswyd.

(5) Ym mhob achos yn y sampl, roedd staff y Tîm wedi sbarduno a chefnogi'r plentyn neu'r person ifanc yn weithredol ac wedi atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol. Roedd rhieni / gofalwyr wedi cyfrannu'n weithredol yn y mwyafrif llethol o'r achosion perthnasol.

## *Maes lle mae angen gwella:*

(1) Roedd ymyriadau cymunedol wedi eu darparu mewn dilyniant priodol mewn 67% o'r achosion.

| 2.3 Diogelu’r plentyn neu’r person ifanc: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:*** *Cymerwyd pob cam rhesymol i ddiogelu a lleihau bregusrwydd y plentyn neu'r person ifanc.* | |
| ***Sgôr:*** ***93%*** | ***Sylw:*** ***Angen gwella YCHYDIG*** |

### *Cryfderau:*

(1) Cawsom fod yr holl gamau diymdroi angenrheidiol wedi eu cymryd i ddiogelu ac amddiffyn y plentyn neu’r person ifanc, lle oedd angen gwneud hynny. Roedd hyn hefyd wedi digwydd gyda phlant a phobl ifanc eraill yr effeithiwyd arnynt, ym mhob achos heblaw am un.

(2) Yn ogystal, roedd pob atgyfeirio angenrheidiol at asiantaethau perthnasol eraill i ddiogelu'r plentyn neu’r person ifanc wedi ei wneud.

(3) Roedd tystiolaeth bod staff wedi gweithio’n effeithiol gydag asiantaethau partner i hybu Diogelwch a lles y plentyn neu’r person ifanc yn y mwyafrif llethol o achosion.

(4) Roedd ymyriadau penodol i hyrwyddo Diogelu yn y gymuned wedi eu hadnabod (96%) a’u cyflenwi (93%). Lle oedd camau wedi eu hadnabod yn y Cynllun Rheoli Bregusrwydd, cawsant eu hymgorffori yn y cynllun ymyrryd mewn 88% o achosion.

(5) Roedd ymweliadau cartref i bwrpas wedi eu cyflawni drwy gydol y ddedfryd, yn unol â’r materion Diogelu, ym mhob achos perthnasol.

(6) Roedd goruchwyliaeth gan reolwyr o anghenion Diogelu a bregusrwydd wedi'i wneud yn effeithiol mewn 30 allan o’r 32 achos perthnasol.

### *Maes lle mae angen gwella:*

(1) Roedd ymyriadau penodol i hyrwyddo Diogelu yn y gymuned wedi eu hadolygu bob tri mis neu’n dilyn newid sylweddol mewn 15 allan o 21 o’r achosion perthnasol.

**Y SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer ansawdd y gwaith o Ddarparu ac Adolygu Ymyriadau: 88%**

**SYLWADAU ar Gyflenwi ac Adolygu Ymyriadau fel cyfanwaith:**

Roedd y Tîm wedi perfformio’n dda iawn yn yr adran hon, er gwaetha’r anhawster o weithio ar draws ardal wledig eang.

Roedd y cyfraniad a wnaed gan asiantaethau partner yn y cam asesu wedi darparu sylfaen ar gyfer cyd-gyflenwi nifer o ymyriadau yn effeithiol. Gwelsom dystiolaeth o oruchwyliaeth gan reolwyr wedi'i gofnodi, a mewnbwn gan staff arbenigol, gan roi darlun cynhwysfawr o'r gwaith a wnaed. Roedd y prosiectau gwneud iawn yn ddigon heriol a, lle oedd hynny'n bosibl, wedi cael eu cysylltu i ddiddordebau'r unigolyn.

Nid oedd y Tîm yn goruchwylio unrhyw blant a phobl ifanc Cymraeg eu hiaith ac i bob golwg nid oeddent yn gwbl barod am y posibilrwydd hwn yn y dyfodol. Roedd gan Sir Benfro rai cymunedau Cymraeg eu hiaith ac roedd Rheolwr y Tîm yn cydnabod bod angen i fwy o adnoddau iaith Gymraeg fod ar gael.

# 3. Y CANLYNIADAU

| 3.1 Sicrhau canlyniadau: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae canlyniadau'n cael eu sicrhau yng nghyswllt RoN, ToA a Diogelu.* | |
| ***Sgôr:***<br>***76%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd *RoN* y plentyn neu'r person ifanc wedi cael ei rheoli'n effeithiol mewn 86% o achosion.

(2) Roedd y plentyn neu'r person ifanc wedi cydymffurfio â gofynion y ddedfryd mewn 71% o'r achosion a, lle bo angen, roedd camau gorfodi boddhaol wedi eu cymryd ym mhob achos heblaw am un.

(3) Cymerwyd pob cam rhesymol i gadw'r plentyn neu'r person ifanc yn ddiogel mewn 95% o achosion.

### *Maes lle mae angen gwella:*

(1) Wrth adolygu ASSET, ni welsom fawr o welliant yn y sgôr 'agweddau at droseddu' mewn 66% o'r achosion ac yn yr 'argraff o'r hunan ac eraill' mewn 69%. Roedd y meysydd hyn yn rhai a oedd wedi eu cysylltu amlaf â'r ToA yn y sampl. Yn ogystal nid oedd y problemau iechyd meddwl ac emosiynol wedi gwella mewn 62% o'r achosion perthnasol, ac roedd ffactorau'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau yn parhau mewn 74%. Roedd hyn yn siomedig o ystyried cyfraniad y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, a rhaid ymchwilio i hyn ymhellach.

| 3.2 Cynnal canlyniadau: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae canlyniadau'n cael eu cynnal yng nghyswllt RoN, ToA a Diogelu.* | |
| ***Sgôr:***<br>***96%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |


## *Cryfderau:*

(1) Rhoddwyd sylw llawn i faterion integreiddio yn y gymuned ym mhob achos. Roedd hyn yn adlewyrchu lefel uchel y cyswllt gyda rhieni / gofalwyr a'r gwaith oedd wedi'i wneud gydag asiantaethau eraill drwy gydol y gorchymyn.

(2) Cymerwyd camau neu roedd cynlluniau wedi eu gosod i sicrhau bod canlyniadau cadarnhaol yn cael eu cynnal ym mhob achos heblaw am dri.

**Y SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer ansawdd y gwaith Canlyniadau: 82%**

## Atodiad 1: Crynodeb



## Atodiad 2: Gwybodaeth gyd-destunol

### Ardal

Roedd Tîm Troseddwyr Ifanc Sir Benfro wedi'i leoli yn Ne Orllewin Cymru.

Roedd gan yr ardal boblogaeth o 114,131 fel a fesurwyd gan Gyfrifiad 2001, ac roedd 10.6% ohoni rhwng 10 a 17 oed. Roedd hyn yn cyfateb i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan o 10.6%. Y ffigur cymharol ar gyfer Cymru a Lloegr oedd 10.4%.

Roedd poblogaeth Sir Benfro yn wyn Brydeinig yn bennaf (99.1%). Roedd y boblogaeth o bobl ddu a lleiafrifol ethnig (0.9%) yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru o 2.1%. Y ffigur cymharol ar gyfer Cymru a Lloegr oedd 8.7%.

Roedd nifer y troseddau a riportiwyd lle derbyniodd blant a phobl ifanc rhwng 10 a 17 oed benderfyniad cyn-llys a phenderfyniad yn y llys yn 2008/2009, sef 39 am bob 1,000, yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr, sef 46 am bob 1,000.

### Y Tîm Troseddwyr Ifanc

Roedd ffiniau'r Tîm Troseddwyr Ifanc o fewn yr un ffiniau ag ardal heddlu Dyfed-Powys ac ardal Ymddiriedolaeth Prawf Cymru (o Ebrill 2010 ymlaen).

Bwrdd Iechyd Hywel Dda oedd y corff iechyd ar gyfer yr ardal.

Roedd y Tîm Troseddwyr Ifanc wedi'i leoli yng Nghyfarwyddiaeth Gofal Cymdeithasol y Cyngor Sir. Roedd yn cael ei reoli gan y Pennaeth Comisiynu Gofal Plant.

Cadeiriwyd Bwrdd Rheoli'r Tîm Troseddwyr Ifanc gan y Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol. Roedd y rhan fwyaf o'r partneriaid statudol yn mynychu'n rheolaidd.

Roedd pencadlys a chanolfan weithredol y Tîm yn nhref Doc Penfro. Roedd y rhaglen ISSP yn cael ei darparu'n fewnol.

### Data Perfformiad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

Roedd crynodeb o ddangosyddion cenedlaethol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar adeg yr arolygiad am y cyfnod rhwng Ebrill 2008 a Mawrth 2009.


Roedd perfformiad Sir Benfro ar sicrhau bod plant a phobl ifanc, a oedd yn hysbys i'r Tîm Troseddwyr Ifanc, mewn addysg, hyfforddiant neu waith addas, yn 85.3%. Roedd hyn yn welliant ar y flwyddyn flaenorol, ac yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru o 69.0%.

Eu perfformiad ar sicrhau llety addas erbyn diwedd y ddedfryd oedd 93.7%. Roedd hyn yn welliant ar y flwyddyn flaenorol, ond yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru o 96.1%.


Y "gyfradd aildroseddu ar ôl 9 mis" oedd 43%, sy'n is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru o 74% (gweler y Rhestr Termau).

## Atodiad 3a: Siart o ddata'r arolygiad


**Sampl Achosion: Math o Ddedfryd**





**Sampl Achosion: Risg o Niwed**





**Sampl Achosion: Oed ar ddechrau'r ddedfryd**




**Sampl Achosion: Rhyw**




**Sampl Achosion: Tarddiad Ethnig**



## Atodiad 3b: Data'r arolygiad

Cyflawnwyd y gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn ym mis Mehefin 2010.

Roedd yr arolygiad yn cynnwys:

- archwilio arferion mewn sampl o achosion, fel arfer ar y cyd â'r rheolwr achos neu gynrychiolydd arall
- tystiolaeth ymlaen llaw
- ymatebion i holiadur gan blant a phobl ifanc, a dioddefwyr

Rydym hefyd wedi gweld data ar berfformiad ac asesiadau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yng nghyswllt y Tîm Troseddwyr Ifanc hwn.

## Atodiad 4: Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer

Mae gwybodaeth am Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer ar gael ar ein gwefan yn:

**http://www.justice.gov.uk/inspectorates/hmi-probation**

Corff cyhoeddus yw'r Arolygiaeth. Dylai unrhyw un sydd am wneud sylwadau ar unrhyw arolygiad, adroddiad neu fater arall sy'n dod o fewn ei chylch gwaith ysgrifennu at:

*HM Chief Inspector of Probation*
*2nd Floor, Ashley House*
*2 Monck Street*
*Llundain, SW1P 2BQ*

Mae'r siartiau data sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad
hwn ar gael yn elelctronig, trwy wneud cais

# Atodiad 5: Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| ASB/ASBO | Ymddygiad gwrthgymdeithasol / Gorchymyn Ymddygiad gwrthgymdeithasol. |
| ASSET | Offeryn asesu systematig sy'n seiliedig ar ymchwil ac wedi'i ddatblygu gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i edrych ar drosedd y person ifanc, yr amgylchiadau personol a'r agweddau a'r credoau sydd wedi cyfrannu at eu hymddygiad troseddu. |
| CAF | Y Common Assessment Framework neu'r Fframwaith Asesu Cyffredin: asesiad safonol o anghenion plentyn neu berson ifanc a sut y gellir diwallu'r anghenion hynny. Mae'n cael ei wneud gan weithiwr allweddol yr achos, gyda phawb arall sy'n gweithio gyda'r unigolyn hwnnw hefyd yn cyfrannu. |
| CAMHS | Child and Adolescent Mental Health Services neu'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc: rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yn darparu gwasanaethau arbenigol ar iechyd meddwl ac ymddygiad i blant a phobl ifanc hyd at 16 oed o leiaf. |
| Careworks | Un o ddwy system electronig o reoli achosion ar gyfer gwaith troseddau ieuenctid a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd. Gweler hefyd YOIS+. |
| CRB | Criminal Records Bureau neu'r Swyddfa Cofnodion Troseddol. |
| DTO | Detention and Training Order neu'r Gorchymyn Cadw Dan Glo a Hyfforddi: dedfryd dan glo i bobl ifanc. |
| Estyn | Arolygiaeth EM ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. |
| ETE | Addysg, Hyfforddiant a Gwaith: gwaith i wella dysgu unigolyn, ac i wella eu rhagolygon gwaith. |
| FTE | Full-time equivalent neu Gyfwerth ag Amser Llawn. |
| HM / EM | Ei Mawrhydi. |
| HMIC | Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM |
| HMI Prisons | Arolygiaeth Carchardai EM. |
| Arolygiaeth Prawf EM | Arolygiaeth Prawf EM |
| Ymyriadau; ymyriadau adeiladol a chyfyngu | Gwaith gydag unigolyn a ddyfeisiwyd i newid eu hymddygiad troseddu a / neu i helpu i warchod y cyhoedd.<br>Ymyriad adeiladol yw un lle mai'r prif bwrpas yw lleihau'r Tebygolrwydd o Aildroseddu.<br>Ymyriad cyfyngu yw un lle mai'r prif bwrpas yw lleihau Risg unigolyn o achosi Niwed i Eraill.<br>Er enghraifft: gyda throseddwr rhyw, gallai ymyriad adeiladol gael ei roi iddynt drwy raglen troseddwyr rhyw achrededig; gallai ymyriad cyfyngu (i leihau ei Risg o Niwed) gael ei roi iddynt i fonitro, yn gyson a thrylwyr, eu llety, eu cyflogaeth ac unrhyw le y maent yn mynd iddo'n aml, gan osod a gorfodi cyfyngiadau clir fel bo'n briodol i bob achos.<br>Dalier sylw: Mae'r ddau fath o ymyriad yn bwysig. |
| ISSP | Intensive Supervision and Surveillance Programme neu'r Rhaglen Goruchwylio ac Arolygu Dwys: mae'r ymyriad hwn ynghlwm wrth rai gorchmynion a thrwyddedau ac i ddechrau mae'n golygu o leiaf 25 awr o gyswllt â'r rhaglen, gan gynnwys cyfran sylweddol o gyflogaeth, hyfforddiant ac addysg. |
| ToA | Tebygolrwydd o Aildroseddu. Gweler hefyd Ymyriadau adeiladol. |
| LSC | Learning and Skills Council neu'r Cyngor Dysgu a Sgiliau. |
| LSCB | Local Safeguarding Children Board neu'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant: sydd wedi'i sefydlu ym mhob awdurdod lleol (yn sgîl Deddf Plant 2004) i gydgysylltu a sicrhau bod y gwaith aml-asiantaeth o ddiogelu a hybu lles plant yn yr ardal honno'n cael ei wneud yn effeithiol. |

| | |
|---|---|
| MAPPA / TACAA | Multi-Agency Public Protection Arrangements neu'r Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Aml-Asiantaeth; lle mae’r gwasanaethau prawf, heddlu, carchardai ac eraill yn gweithio gyda’i gilydd yn lleol i reoli troseddwyr sy’n cyflwyno Risg o Niwed uwch i eraill. |
| Ofsted | Office for Standards in Education, Children's Services and Skills neu’r Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau: yr Arolygiaeth ar gyfer y gwasanaethau hynny yn Lloegr (nid yng Nghymru, gweler Estyn am hynny) |
| PCT | Primary Care Trust neu Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol. |
| PPO | Prolific and other Priority Offender neu Droseddwyr Cyson a Throseddwyr Eraill â Blaenoriaeth: troseddwyr dynodedig, boed yn oedolyn neu’n berson ifanc, sy'n derbyn sylw ychwanegol gan asiantaethau'r System Cyfiawnder Troseddol. |
| Cyn-CAF | Yn syml, ‘Cais am Wasanaeth’ yw hwn mewn sefyllfa lle nad oes efallai angen Fframwaith Asesu Cyffredin. Gellir ei ddefnyddio i ofyn am un neu ddau wasanaeth ychwanegol, e.e. Iechyd, gofal cymdeithasol neu addysg. |
| PSR | Pre-sentence report neu Adroddiad Cyn-Dedfrydu: ar gyfer y llys. |
| RMP | Risk management plan neu Gynllun Rheoli Risg: cynllun i leihau Risg yr unigolyn o achosi Niwed. |
| *RoN* | *Risg o Niwed i eraill.* Gweler hefyd Ymyriadau cyfyngu. |
| *‘Gwaith RoN, neu ‘Gwaith Risg o Niwed’* | Dyma’r term a ddefnyddir fel arfer gan Arolygiaeth Prawf EM i ddisgrifio gwaith a wneir i warchod y cyhoedd, yn bennaf drwy ddefnyddio ymyriadau cyfyngu, er mwyn lleihau unrhyw gyfle sydd gan yr unigolyn i ymddwyn mewn ffordd sy’n achosi Risg o Niwed i eraill. |
| RoND | Risg o Niwed Difrifol: term a ddefnyddir yn ASSET. Mae’n well gan Arolygiaeth Prawf EM beidio â defnyddio’r term hwn oherwydd nid yw’n helpu i egluro’r gwahaniaeth rhwng pa mor debygol yw rhywbeth o ddigwydd ac effaith / difrifoldeb y digwyddiad. Mae’r term Risg o Niwed Difrifol yn ymgorffori effaith ‘ddifrifol’ yn unig, tra bod Risg o Niwed yn golygu y gellir rhoi’r sylw angenrheidiol i’r troseddwyr hynny lle mae ymddygiad niweidiol sy’n cael llai o effaith / sy’n llai difrifol yn debygol. |
| Diogelu | Gallu dangos y cymerwyd yr holl gamau rhesymol i leihau’r risg bod plentyn neu berson ifanc yn cael niwed. |
| SIFA | Screening Interview for Adolescents neu Gyfweliad Sgrinio ar gyfer y Glasoed: offeryn sgrinio iechyd meddwl sydd wedi’i gymeradwyo gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i’w ddefnyddio gan weithwyr arbenigol. |
| SQIFA | Screening Questionnaire Interview for Adolescents neu Gyfweliad Holiadur Sgrinio ar gyfer y Glasoed: offeryn sgrinio iechyd meddwl sydd wedi’i gymeradwyo gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i’w ddefnyddio gan weithwyr Timau Troseddwyr Ifanc. |
| VMP | Vulnerability management plan neu Gynllun Rheoli Agored i Niwed: cynllun i ddiogelu lles yr unigolyn sy’n cael ei oruchwylio. |
| YJB | Youth Justice Board neu’r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer Cymru a Lloegr. |
| YOI | Young Offenders Institution neu Sefydliad Troseddwyr Ifanc: sefydliad gan y Gwasanaeth Carchardai i bobl ifanc sydd wedi eu carcharu ar remand neu wedi eu dedfrydu i garchar. |
| YOIS+ | Youth Offending Information System neu'r System Gwybodaeth Troseddau Ieuenctid: un o ddwy system electronig o reoli achosion ar gyfer gwaith troseddau ieuenctid a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd. Gweler hefyd Careworks. |
| YOS/T | Gwasanaeth / Tîm Troseddwyr Ifanc. |

© Hawlfraint y Goron

Arolygiaeth Prawf EM
6th Floor Trafford House
Chester Road
Stretford
Manceinion
M32 0RS
Ffôn - 0161 869 1300

Mae fformatau eraill ar gael drwy wneud cais.

ISBN 978-1-84099-363-9